

Byd Rhyfeddol

Rodney Peppé

Pecyn Addysg



Canolfan Grefft Rhuthun

Mawrth 15fed – Mai 12fed 2013

Byd Rhyfeddol Rodney Peppé: Rhagarweiniad

Mawrth 16eg – Mawrth 12fed 2013

Orielau 1, 2 & 3

Mae Byd Rhyfeddol Rodney Peppé'n fyd mor wahanol i'n bywydau modern ni sy'n llawn mwstwr technoleg. Mae'r arddangosfa yng Nghanolfan Grefft Rhuthun yn amlygu gyrfa un o artistiaid mwyaf swynol a dawnus Prydain. Yn ogystal â'i fod yn ysgrifennwr toreithiog a darluniwr llyfrau poblogaidd i blant a chyfres deledu, fel Huxley Pig ac Angelmouse, fe greodd Rodney Peppé gasgliad rhyfeddol o fodelau, teganau ac awtomata a grëwyd â llaw.

Mae'r pecyn yma wedi ei ddylunio i gynorthwyo athrawon ac addysgwyr gyda chynllunio ymweliad â'r arddangosfa gyda syniadau a awgrymir, gweithdai a phwyntiau trafod. Mae'n canolbwyntio ar adrodd straeon fel dull o ymgysylltu â'r gweithiau a meddwl am y berthynas rhwng gwneud celfyddyd a chreu straeon. Mae'r gweithgareddau'n addas ar gyfer pob oed a gellir eu haddasu i siwtio eich anghenion chi cyn, yn ystod ac ar ôl eich ymweliad.



Travelling Toilet Roll, 1991
Model ar gyfer *The Mice and the
Travel Machine*, Viking (1993)

Cynnwys

Cyflwyniad i Rodney Peppé	tudalen 4
Hanes Awtomata	5
Gwneud Modelau ac Adrodd Straeon	7
Cludiant	9
Anifeiliaid	11
Pobl	13
Adnoddau pellach	14
Ymweld â'r Arddangosfa a Gweithdai	16



Sardine Tin Boat, 1981
Model ar gyfer *The Kattleship*
Pirates, Viking Kestrel (1983)

Cyflwyniad i Peppé

Ganwyd Peppé yn Eastbourne ond fe dreuliodd ran helaeth o'i blentyndod cynnar yn India lle'r oedd gan ei deulu stad. Roedd ei dad wedi bod yn lefftenant gomander yn y llynges yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf a phan ddechreuodd yr Ail Ryfel Byd, fe ymunodd â'r Llynges Indiaidd. Fe anfonodd ei deulu ifanc yn ôl i Loegr lle byddai Rodney a'i frawd yn cael addysg ysgol breswyl yn Rhydychen.

Mae'n cofio dyfeisgarwch ei fam fel gwneuthurwr doliau, gwniadwraig a chrëwr gwisgoedd ffansi coeth ar gyfer ei meibion a oedd yn efeilliaid. Mae'n ymddangos bod Rodney wedi etifeddu ei dyfeisgarwch a'i gweledigaeth greadigol ac fe gymhwysodd hynny i'w fentrau artistig ei hun ac i wneud modelau. Roedd yn fachgen llawn dychymyg a allai droi unrhyw wrthrych ar yr aelwyd yn rhywbeth i chwarae ag o neu'n ddeunydd adloniant. Cofia wneud ffigur gyda choncyr yn ben ac un digwyddiad arbennig yn ei blentyndod lle mae'n dweud iddo 'struck up a conversation with a mop, holding it by the handle, animating it like a puppet.'

Cafodd Peppé ei hyfforddi fel artist celfyddyd gain ac engrafwr pren cyn dechrau ar yrfa mewn hysbysebu fel dylunydd graffig. Fe ddigwyddodd ei lwyddiant cyntaf yn 1968, pan gyhoeddodd *The Alphabet Book*, y cyntaf o dros bedwar ugain o lyfrau fel awdur a darluniwr poblogaidd i blant.

Mae ei agwedd tuag at adrodd stori'n unigryw oherwydd ei bod yn tarddu o wneud modelau. Fe esblygodd ffordd o adeiladu modelau i'w copïo ar gyfer darluniadau ei lyfr ac yn aml byddai'r broses ddyfeisgar yma'n bwydo i mewn i'r straeon. Er enghraifft, gallai tun sardîns a droswyd yn gwch fod yn fan cychwyn direidi diddiwedd i'r llygod-forwyr ar ei fwrdd.

Ymweliad ag arddangosfa o waith Sam Smith yn Amgueddfa'r Victoria & Albert, Llundain a ysbrydolodd Peppé i wneud modelau a oedd yn symud ac fe ddechreuodd cyfeillgarwch clos â'r dyn y byddai'n ei alw'n 'my idol' a 'the father of modern automata.' Ei gread mecanyddol cyntaf oedd *The Jumping Jacks* a enillodd iddo wobwr y British Toymakers' Guild a'r comisiwn am lyfr, *Rodney Peppé's Moving Toys* (1980) a oedd yn cynnwys dyluniadau a chyfarwyddiadau manwl ar gyfer gwneud teganau pren.

O ganlyniad i lwyddiant Peppé fel adroddwr straeon a gwneuthurwr modelau cafwyd ystod eang o lyfrau sydd wedi eu dylunio'n hardd a hefyd nifer o gyfresi teledu o anturiaethau ei gymeriadau fel *Huxley Pig* ac *Angelmouse*. Cafwyd diddordeb mawr hefyd gan amgueddfeydd ac orielau yng nghasgliad enfawr Peppé o fodelau a gadwyd ganddo dros y blynyddoedd, a'r canlyniad fu arddangosfeydd sy'n cipio dychymyg oedolion a phlant fel ei gilydd.

Hanes Awtomata yn fyr

Awtomaton: peiriant neu robot hunanweithredol

Daw'r gair o'r gair Groeg αὐτόματον, sy'n golygu 'gweithredu yn ôl eich ewyllys eich hun', ac fe'i defnyddir yn gyffredinol i ddisgrifio peiriannau an-electronig fel teganau peirianwaith cloc. Gwyddys fod dyfeisiadau mecanyddol cymhleth wedi bodoli yn yr Hen Roeg. Fe ysgrifennodd y mathemategydd, Arwr Alecsandria am beiriannau a oedd yn cynnwys seiffon dŵr, injan dân a throl y gellid ei rhaglennu. Yr unig enghraifft i oroesi, fodd bynnag, ydi'r mecanwaith *Antikythera* o 150-100 CC a arddangosir yn awr yn yr Amgueddfa Archeolegol Genedlaethol yn Athen. Credir i hwn gael ei ddefnyddio i gyfrifo safleoedd y sêr a'r planedau.

Mae yna hefyd adroddiadau o awtomata yn yr Hen Dsieina. Mae testun y *Li Zie* o'r 3^{ydd} ganrif CC yn disgrifio robot siâp dynol a grëwyd gan y 'dyfeisiwr' Yan Shiand. Yn y testun *Han Fei Zi* o'r 5^{ed} ganrif CC mae yna ddisgrifiadau o adar pren a allai hedfan.

Roedd peiriannau a robotau'n ffurfiau adloniant poblogaidd mewn llysoedd canoloesol a phalasaau Dwyreiniol. Fe gasglodd y brodyr Persiaidd a elwid yn *Banu Musa*, waith darluniadol, *Llyfr y Dyfeisiadau Celfydd* yn 850, sy'n disgrifio 100 o awtomata, yn cynnwys ffliwt sy'n ei chwarae ei hun, ffownten sy'n defnyddio pŵer gwynt a dyfais i hel cregyn bylchog. Mae llyfrau brasluniau'r artist Villard de Honnercourt o'r 13^{eg} g yn datgelu dyluniadau ar gyfer anifeiliaid ac angylion mecanyddol.

Yn ystod y Dadeni, fe gynhyrchodd artistiaid fel Giovanni Fontana a Leonardo da Vinci ddyluniadau dyfeisgar ar gyfer dyfeisiadau ymarferol a gwleddoedd mecanyddol i'r llygaid. Mae traethawd Fontana, *Bellicorum instrumentorum liber* o 1420-30, yn disgrifio awtomata ffantastig fel pysgodyn, aderyn a chwingen sy'n cael eu gyrru â roced. Mae dyfeisiadau Leonardo'n cynnwys peiriannau sy'n hedfan, tanciau a gwahanol ddyfeisiadau milwrol. Dywedir iddo hefyd greu llew wedi'i animeiddio a marchog robotig mewn arfwisg i ddi-ddanu llys Dug Sforza ym Milan. Yn Lloegr, fe ddyfeisiodd y mathemategydd John Dee chwilen bren a allai hedfan!

Wrth i wneuthuriad watshis ddatblygu yn Ewrop yn ystod yr Oes Oleuedig, felly hefyd y datblygodd y gelfyddyd o wneud gwrthrychau mecanyddol. Yn ystod y 18^{fed} a'r 19^{eg} g, daeth Paris yn ganolfan diwydiant ffyniannus, yn allforio modelau peirianwaith cloc a pheiriannau ledled y byd. Mae gwneuthurwyr awtomata enwog yn cynnwys Jacques de Vaucanson, Pierre Jaquet-Droz, John Joseph Merlin a Henri Maillardet a busnesau fel Vichy, Rouillet & Decamps, Lambert, Phalibois, Renou and Bontems y mae casglwyr yn gwerthfawrogi eu nwyddau'n awr.

Roedd yr oes Fictoraidd ym Mhrydain yn gyfnod o ddatblygiad cyflym, o ddarganfyddiad a hefyd yn 'Oes Aur Awtomata'. Roedd robotau a theganau mecanyddol yn atyniadau mewn dangosiadau, ffeiriau a syrcau.

Mae llawer o artistiaid heddiw'n parhau'r traddodiad o wneud awtomata. Mae'r Cabaret Mechanical Theatre yn sefydliad sydd wedi ei leoli ym Mhrydain ac sydd wedi cynnal arddangosfeydd o awtomata cyfoes ledled y byd am dros ddeng mlynedd ar hugain. Mae artistiaid eraill yn cynnwys Dug North, Thomas Kuntz, Arthur Ganson a Le Défenseur du Temps.

Mae Rodney Peppé'n enwi Sam Smith fel y prif ddylanwad ar ei fodolau o'i hun, ynghyd â symudion a cherfluniau symudol Alexander Calder a Jean Tinguely.

Gweithgareddau

Chwiliwch am wybodaeth am wrthrychau mecanyddol a ddefnyddiwyd drwy hanes (e.e. clociau cwcw, clociau dŵr, melinau dŵr, arfau etc), casglwch luniau y gallech eu torri i wneud collage. Gallech ymuno â disgyblion eraill a phawb i gyfrannu rhannau i gollage mecanyddol anferthol.

Gwnewch restr o wrthrychau mecanyddol y byddwch yn eu defnyddio mewn bywyd dyddiol. Gwnewch frasluniau o'r rhannau symudol. Ceisiwch ddarganfod sut maen nhw'n gweithio. Ceisiwch eu disgrifio – neu ysgrifennwch gerdd am beirianwaith!

Dychmygwch fyd heb gyfrifiaduron, technoleg ddigidol a thrydan. Sut fyddech chi'n goroesi? Ysgrifennwch stori am fywyd heb dechnoleg fodern. Gallech dychmygu eich bod wedi eich llongdryllio ar ynys anial, ar goll mewn jyngl neu'n oroeswr gwrthdrawiad awyr mewn lle anghysbell.

Dyluniwch robot! Defnyddiwch luniadau i wneud model â defnyddiau sydd wedi eu hailgylchu fel bocsys cardfwrdd, tiwbiau, ffabrigau, botymau, cynwysyddion plastig etc. Rhowch enw i'ch robot! Disgrifiwch y tasgau y gall eu gwneud – a all o siarad? Dychmygwch gael robot gartref, yn mynd efo chi i'r ysgol, ar wyliau neu fynd ag o allan efo'ch ffrindiau. Lluniwch stori am eich anturiaethau.

Gwnewch symudyn neu gerflun cinetig yn arddull Alexander Calder.

<https://www.youtube.com/watch?v=s2p44uZnWHE>

Neu awtomata â bwyd! <https://www.youtube.com/watch?v=tvjCWIOFYLU>

Gwylwch fideos o awtomata hanesyddol:

http://www.youtube.com/watch?v=ifeNC28vpYo&feature=player_embedded

<http://www.youtube.com/watch?v=WofWNcMHcl0>

<http://www.youtube.com/watch?v=GN7WFr-anqY>

<http://www.youtube.com/watch?v=C7oSFNKllaM&list=PLQH9WM6LVBTOAIXYHVMKFSAPX71DIPQ9H>

<http://www.youtube.com/watch?v=EiLWBzxyzuk>

Gwneud Modelau ac Adrodd Straeon

Model: cynrychioliad tri dimensiwn o wrthrych neu berson, ar raddfa lai na'r gwreiddiol fel rheol

Stori: disgrifiad o bobl, lleoedd a digwyddiadau real neu ddychmygol er mwyn adloniant

Mae Rodney Peppé wedi bod yn frwdfrydig am fodelu ers ei blentyndod. Yn ei ardegau roedd yn gwneud modelau manwl wrth raddfa, yn cynnwys replica o HM Bark Endeavour y Capten Cook. Byddai'n gwneud gwaith ymchwil helaeth ar gyfer ei adluniadau o longau enwog gan astudio llawlyfrau a gwneud brasluniau yn adrannau morwrol amgueddfeydd.

Daeth ei gyflwyniad i fodolau symudol yn ystod ei blentyndod yn Eastbourne, lle cafodd ei swyno gan yr awtomata ceiniog-yn-y-slot yn arcedau diddanu'r gyrchfan glan môr ac fe geisiodd wneud ei 'dŷ bwgan' ei hun. Yn ystod ei ardegau, fe ddarganfu mam Rodney, crefftwraig ddawnus ei hun, ddewin gyda pheirianwaith cloc o'r 19g mewn siop jync leol. Fe'i gwnaethpwyd gan Roulet et Decamps, cwmni o Baris o 'Oes Aur Awtomata' a chyda'i mab brwdfrydig yn gwyllo, dechreuodd ei adfer fel ei fod yn gweithio.

Ac yntau'n fyfyrwr celf, magodd ddiddordeb yng ngherfluniau cinetig Alexander Calder a chelfyddyd robotig Jean Tinguely. Dylanwad arall arno oedd yr artistiaid Pop fel Peter Blake a gâi ysbrydoliaeth mewn gwrthrychau cyffredin a diwylliant poblogaidd.

Mae gwneud modelau wedi dod yn rhan hanfodol o yrfa Peppé fel ysgrifennwr ar gyfer plant ac fel artist. Mae wedi gwneud modelau nid dim ond fel cymhorthion ar gyfer darluniadau yn ei lyfrau ond mae hefyd wedi cael ysbrydoliaeth ar gyfer ei straeon yn y gwrthrychau a wnaeth. Enghraifft dda yw stori *The Mice Who Lived in a Shoe*. Ei fwriad yn wreiddiol oedd ysgrifennu rhywbeth yn seiliedig ar yr hwiangerdd am yr hen wraig a oedd yn byw mewn esgid. Roedd ei chwiliad am esgid â charrai hen ffasiwn i ferched yn aflwyddiannus ac felly fe gynigiodd ei dad bâr o'i esgidiau anialwch nad oedd o'n eu defnyddio. Yn hytrach nag awgrymu cartref credadwy i hen wraig, roedd esgid dyn yn ymddangos yn fwy addas i deulu o lygod, ac felly fe ddechreuodd yr ysgrifennwr feddwl am y ffordd y gallai'r creaduriaid hyn addasu'r esgid yn llety. Fe esgorwyd ar y syniad am gyfres gyfan o lyfrau, fel yr esboniodd Rodney:

‘The subtext would be about family teamwork and the story would show how they build their wonderful shoe-house, safe from the weather and the cat...Most of the drawings for the Mice who Lived in a Shoe are made from the various stages of construction, a feat I could not have invented without a model.’

Gweithgareddau

Ewch i ymweld ag amgueddfa a chasglu lluniau neu ffotograffau o wrthrychau diddorol. Dosbarthwch y delweddau hyn yn y dosbarth a gweld a all eich ffrindiau ddyfalu beth ydyn nhw neu ar gyfer beth y’u defnyddiwyd. Dychmygwch hanes i un o’r gwrthrychau hyn – pwy wnaeth o? Pwy sydd wedi bod yn berchen arno drwy gydol ei oes? Sut y daeth o i’r amgueddfa yn y diwedd?

Dychmygwch fod yn ffigwr bychan bach ar long degan neu mewn tŷ doliau (neu fodel yn yr arddangosfa!). Ysgrifennwch stori am eich antur yng Ngwlad y Teganau, yn yr oriel ar ôl oriau neu’n ymlwybro drwy fywyd dyddiol fel person miniatur.

Gwenwch restr o ddefnyddiau ar gyfer modelau mewn bywyd dyddiol (e.e. modelau pensaernïol, modelau dyluniwr wrth raddfa, dymis teilwriaid, dioramau mewn amgueddfeydd, arddangosiadau siopau etc). Ysgrifennwch stori am ddymi mewn ffenest siop neu fodel mewn amgueddfa’n dod yn fyw.

Ffeindiwch enghreifftiau o artistiaid eraill sy’n ymgorffori gwrthrychau neu fodelau yn eu gwaith (ee Salvador Dali, Peter Blake, Tony Cragg, Claes Oldenburg etc.) Trafodwch y ffordd y maen nhw’n defnyddio defnyddiau - beth maen nhw wedi ei ddefnyddio a pham? Beth mae’n eich atgoffa ohono? Gwnewch eich fersiwn eich hun o, dyweder, *Lobster Telephone* (1936) Dali neu *Toy Shop* (1962) Blake gan ddefnyddio hen deganau a defnyddiau sydd wedi eu hailgylchu.

Dyluniwch lety ar gyfer teulu o adar, pryfed, ymlusgiaid neu famaliaid bychan drwy addasu gwrthrych cartref neu ddilledyn (e.e. sugnwr llwch, esgid bêl droed, lamplen, tun bisgedi, bag llaw, helmed seiclo etc) Dyfeisiwch enwau i’ch cymeriadau a meddyliwch sut fydden nhw’n mynd o’i chwmpas hi i adnewyddu eu llety newydd. Gallech gydweithio efo eraill i adeiladu pentref o ‘gartrefi creaduriaid’. Gallech ddyfeisio ‘opera sebon’ am gymuned eich anifeiliaid a phawb yn eu tro’n awgrymu rhediad y stori.

Trafodwch syniadau! Mae Rodney Peppé yn mynnu mai'r SYNIAD ydi elfen bwysicaf gwneud llyfr lluniau. Cronnwch eich adnoddau i feddwl am syniadau ar gyfer straeon a sut y gallech eu darlunio. Gweithiwch fel tîm!



Shoe House, 1980.

Cludiant

Gydol ei oes mae Peppé wedi teithio'n eang ac wedi byw mewn gwledydd eraill ac mae hynny, o bosib, yn esbonio ei gyfaredd â chludiant o wahanol fathau. Fe ysbrydolwyd ei gariad bore oes tuag at gychod a llongau o fod yn byw ger y môr yn Eastbourne a gyrfa forol ei dad. Cofia gael llongau tegau ar ei ben-blwydd yn wyth oed tra'r oedd ar fwrdd llong filwyr y Windsor Castle yn ystod mordaith gyffrous yn ôl i Loegr efo'i deulu yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Mae'r cymeriadau yn ei lyfrau a'i raglenni teledu'n defnyddio ystod eang o gludiant ar gyfer eu siwrneiau, yn cynnwys cychod tuniau sardîns, cychod tegellau ac awyrennau rhoiau toiled. Ymysg yr esiamplau yn yr arddangosfa mae'r *Flying Basket* (1981), *Huxley and Horace in Huxley Pig's Motor Car* (1985-88) ac *Uncle Sam Cyclist* (1988).



Flying Basket, 1983

Gweithgareddau

Ewch i ymweld ag amgueddfa forwrol, amgueddfa geir neu hedfan a gwnewch frasluniau neu casglwch luniau o gludiant o wahanol dulliau. Sut oedd y dulliau cludiant hanesyddol yn wahanol i'r rheiny y byddwn yn eu defnyddio heddiw? Pwy ddyfeisiodd y car, y trê, hofrennydd, bws etc? Sut maen nhw'n gweithio? Sut fyddai pobl yn teithio cyn dyfeisio ceir, trenau, awyrenau etc?

Casglwch eitemau o'r cartref sydd wedi eu taflu i'w trosi'n aliynau a pheiriannau hedfan. Gallech gadw llygad am eitemau diddorol mewn siopau pethau ail-law ac arwerthiannau cist car: e.e. tegellau, basgedi, caniau dyfrio, colandrau, hambyrddau, esgidiau, hetiau, etc. Siaradwch am werth ailgylchu hen ddefnyddiau.

Defnyddiwch ddefnyddiau naturiol ar gyfer y gweithgaredd uchod yn lle gwrthrychau o law dyn. Gallai enghreifftiau gynnwys plisgyn coconut, broc môr, cregyn glan môr, dail, rhisgl etc. Siaradwch am y ffordd y gellir defnyddio deunydd naturiol i wneud basgedi, ffabrigau, papur, crochenwaith, paent, teclynnau etc. Sut allwch chi ddweud y gwahaniaeth rhwng pethau sydd wedi eu gwneud â pheiriant a phethau sydd wedi eu gwneud â llaw? Beth yw manteision/anfanteision eitemau sydd wedi eu masgynhyrchu neu eu llunio â llaw?

Dewiswch un o greadigaethau rhyfeddol Rodney Peppé i ysgrifennu stori amdani. Dychmygwch eich bod yn mynd ar daith yn ôl mewn amser neu i'r dyfodol mewn llong degell neu fasedg hedfan. Beth aech chi efo chi? Ble'r aech chi? Pwy aech chi efo chi'n griw?

Cynlluniwch drip rownd y byd gan ddefnyddio amrywiaeth o gerbydau Peppé er mwyn croesi tir a môr. Ymgynghorwch â map i gynllunio llwybr a phenderfynu ba wledydd yr hoffech chi ymweld â nhw. Ysgrifennwch gyfrif o'ch siwrne ddychmygol - y bobl y byddwch yn eu cyfarfod, yr anifeiliaid y dowch chi ar eu traws, y golygfeydd y byddwch yn eu profi, yr arogleuon, y synau etc. Gallech ddarlunio eich stori neu dorri a gludio lluniau o gylchgronau.

Gwnewch gwch model o wir faint gan ddefnyddio bocsys cardfwrdd mawr, clustogau, hen ddillad, llinyn etc. Gwisgwch fel morladron, llongwyr neu fforwyr ac actiwch stori fel miwtini, brwydr ar y môr, darganfyddiad tir newydd neu longdrylliad.

Ysgrifennwch gyfrif o gludiant o wahanol fathau'r ydych chi wedi teithio arnyn nhw. Beth oedd y daith fwyaf cyffrous i chi fod arni? Ydych chi wedi teithio dros nos ar awyren, trênn neu gwch? Ydych chi wedi bod ar reilffordd fodel/mewn balw'n/trênn fynydd/hofrennydd/reid motor beic? Disgrifiwch eich profiadau – beth ydych chi'n ei gofio? Sut deimlad oedd hynny?

Ymchwiliwch gludiant mewn hanes celfyddyd: paentiadau ogofâu o geffylau a cherbydau rhyfel; tapestrïau, llawysgrifau goliwiedig, cerfluniau a cherfiadau, gosodiadau fideo modern etc. Trafodwch sut y mae rhai artistiaid wedi ceisio cipio symudiad (ee Ivo Pannaggi, *Speeding Train* 1922) neu bŵer neu effeithiau grymoedd naturiol (e.e. JMW Turner, *Dutch Boats in a Gale* 1801) neu i ddweud stori taith (e.e. William Frith, *The Railway Station* 1862) neu ddarlunio drama llongdrylliad (e.e. Théodore Géricault, *The Raft of the Medusa* 1818)

Ail-grewch baentiad enwog yn arddull ac ysbryd Rodney Peppé gan ddefnyddio defnyddiau y daethoch o hyd iddyn nhw a chymeriadau anifeiliaid yn lle pobl! Byddwch yn ddyfeisgar a mwynhewch eich hun!

Gwnewch awyren o rolyn toiled neu gwch tun sardîns! Defnyddiwch luniadau neu luniau o enghreifftiau Peppé yn yr arddangosfa fel arweiniad ond addaswch eich dyluniad i'w wneud yn unigryw!

Anifeiliaid



Tyger! Tyger! 1993.

Awtomaton sy'n cael ei weithio â llaw,
44x43x20cm

Caiff cariad gydol oes Peppé ei adlewyrchu yng nghymeriadau ei straeon, fel Huxley Pig, Angelmouse, Henry the Elephant etc. Gwnaethpwyd llawer o'i fodelau'n gartrefi ac yn gludiant i'w gymeriadau ac roedd rhai o'i weithiau mwyaf dyfeisgar yn seiliedig ar anifeiliaid, yn wyllt ac yn ddof.

Wrth dyfu i fyny yn India, roedd Rodney'n gyfarwydd â chreaduriaid egsoftig y cyfandir hwnnw. Mae'n cofio: 'two cobras fighting over a bird...me falling off an elephant....watching crocodiles on the riverbank....listening to a mynah bird reciting a play in different voices...' Mae'r jyngl yn nodwedd mewn llawer o'i weithiau yn cynnwys y 'Jungle' o'r 'Puzzle Book' (1981) a'r 'Jungle Box' (2003). Un o'i fodelau symud mwyaf poblogaidd ydi 'Tyger! Tyger!' (1993) a ysbrydolwyd gan gerdd William Blake, 'The Tyger.' Mae troi'r handlen yn gwneud i adar egsoftig hedfan ar draws yr awyr serenog ac mae llygaid y bwystfil ffyrnig yn tywynnu wrth iddo agor ei safn i ruo.

Gweithgareddau

Darllenwch gerdd William Blake, *The Tyger* a siaradwch am rai o'r geiriau y mae'r awdur yn eu defnyddio i ddisgrifio'r anifail yma. Edrychwch ar enghreifftiau eraill o gerddi am greaduriaid, e.e. 'A Small Dragon' gan Brian Patten, 'Crickk Crack Crocodile' gan Joan Poulson neu 'On the Ning Nang Nong' gan Spike Milligan

Edrychwch ar gynrychioliadau o wahanol anifeiliaid mewn celfyddyd a gwnewch luniad a phaentiadau o'ch ffefrynnau, e.e. George Stubbs, Franz Marc, Henri Rousseau, Picasso, Henry Moore, David Hockney etc.

Cymharwch luniadau Rodney Peppé o Henry the Elephant a Huxley Pig â'i fodolau pren. Gwnewch eich modelau eich hun i arlunio oddi wrthyn nhw. Gall hyn eich helpu i ddatrys golau a chysgod a pherthynas ffigwr â'i amgylchoedd.


Gwnewch eich 'Clothes-Peg Alligator' eich hun! Dyfeisiwch eich creaduriaid brathog eich hun efo safnau sy'n symud. (Mae manylion a chyfarwyddiadau i wneud hwn a modelau eraill i'w cael yn y trawslwythiad pdf am ddim yma: <http://bookos.org/g/Rodney%20Peppe>)

Dyluniwch wardrob newydd ar gyfer Huxley Pig neu dyfeisiwch gymeriad mochyn benyw a'i gwisgo hi! Gallech dorri lluniau o wisgoedd o gylchgronau ac un ai eu copïo neu wneud collage.

Crëwch sw cardfwrdd... neu fferm.. neu jyngl... neu fôr.. neu Arch Noa.... Defnyddiwch eich dychymyg! Gwnewch dempledi mewn papur a gwneud llinell o'u cwmpas nhw ar gardfwrdd. Gallech eu lliwio â phensiliau, creons neu baent. Gallech wneud hynny fel gweithgaredd grŵp i wneud cymaint o wahanol greaduriaid ag sydd bosib!

Lluniwch restr o gymeriadau anifeiliaid o lyfrau, y teledu a ffilmiau. Pa rai yw eich ffefrynnau a pham? Gallech gasglu lluniau ohonyn nhw a gwneud milodfa collage anferth efo'ch ffrindiau yn y dosbarth.

Dyfeisiwch eich cymeriad anifail eich hun! Gallai fod yn gymeriad cartŵn neu'n fodel. Rhowch enw iddo. Dyluniwch ei ddillad (neu gwnewch nhw!), ei gartref, cludiant, ffrindiau a chelfi. Gallech weithio mewn grŵp a gwneud tasgau gwahanol ar gyfer y gweithgaredd yma.



Cardboard Zoo, 1989.

Pobl

Roedd Peppé ag uchelgais gynnar i fod yn feiolinydd cyngerdd neu'n actor: 'my dreams revolved around the fame and adulation the film stars received.' Nid yw'n rhyfedd ffeindio felly bod ei 'Fyd Rhyfeddol' wedi ei boblogi â cherddorion, dawnswyr, pobl syrcau a pherfformwyr. Un o'i ddarnau mwyaf anarferol ydi *The Choir* (2006), lle mae'r maestro'n arwain grŵp o ddannedd sy'n canu ac sy'n agor i ddatgelu cerddoriaeth ddalen y tu mewn i'w cegau.

Roedd rhai o'i weithiau'n seiliedig ar ganeuon neu farddoniaeth, er enghraifft *The Twelve Days of Christmas* (1990) a *The Owl and the Pussy Cat* (2011). Fe ysbrydolwyd *A Different Drummer* gan linellau'r athronydd Henry David Thoreau o *Walden*; neu, *Life in the Woods* (1854):

*"If a man does not keep pace with his companions,
perhaps it is because he hears a different drummer.
Let him step to the music which he hears, however
measured or far away."*

Mae'r llinellau hyn yn addas i ddisgrifio perfformwyr Peppé, oherwydd tra bod llawer o'r gwaith yn darlunio timau'n gweithio efo'i gilydd, mae yna bwyslais hefyd ar wreiddioldeb ac unigolrwydd. Efallai bod ei acrobataid a'i ddawnswyr wedi eu cerfio o'r un templed, ond mae pob un â'i bersonoliaeth ei hun a gwahaniaethau cynnil yn eu hwynepryd a'u gwisgoedd i nodi eu hunaniaeth unigryw eu hunain.



Hole & Peg Acrobats,
1976. Tegan sy'n slotio'n ei gilydd

Gweithgareddau

Darllenwch gerddi neu hwiangerddi yn y dosbarth ac yna awgrymwch syniadau am gelfyddyd sy'n ymwneud â'r cerddi e.e. paentiad o'r ' Jabberwocky' gan Lewis Carroll; collage o lythrennau a geiriau ar gyfer *An Alphabet* gan Edward Lear; casgliad yn seiliedig ar y Bowlen yn rhedeg i ffwrdd â'r Llwy, o *Hey Diddle Diddle* (gan ddefnyddio cyllyll a ffyrnc plastig a phlatiau papur) etc

Gwnewch acrobataid 'twll a pheg' - gallai pob disgybl gael ffigur i'w baentio cyn eu hymgynnull fel 'troupe'. Gallech ddefnyddio cardfwrdd rhychiog yn lle pren ar gyfer eich ffigyrau a phastio papur arnyn nhw.

Dyluniwch boster syrcas! Edrychwch ar rai esiamplau o hysbysebion Fictoraidd i gael ysbrydoliaeth neu gwrandewch ar y *Being For The Benefit of Mr Kite* gan y Beatles, a oedd yn seiliedig ar boster syrcas yr oedd John Lennon wedi ei weld. Ffeindiwch sut fydd posteri'n cael eu printio gan ddefnyddio peiriannau, sgriniau neu dechnoleg ddigidol. Gallech greu poster â llaw ar gyfer actau Rodney Peppé.

Gwnewch ffigurau torion o acrobataid, dawnswyr, clowniau etc gyda breichiau a choesau symudol (wedi eu cydio â chlipiau) gan ddefnyddio Humpty Dumpty Peppé (isod) fel canllaw.

Crëwch gerddorfa! Dyrannwch offerynnau gwahanol i ddisgyblion iddyn nhw ddod o hyd i wybodaeth amdany'n nhw, i wneud brasluniau neu gasglu delweddau ac yna wneud model mewn plastisin neu gerdyn. Ceisiwch ffeindio ystod eang o offerynnau o wledydd eraill ac o hanes. Trafodwch sut y cawson nhw eu gwneud, o beth maen nhw wedi eu gwneud, sut sŵn sydd iddyn nhw - ffeindiwch glipliau ar YouTube.

Llwyfannwch gystadleuaeth ddawnsio! Gwahoddwch ddisgyblion i ffeindio delweddau gwahanol o ddawnswyr i'w gwneud neu eu paentio a'u harddangos ar lawr dawnsio neu lwyfan cogio (e.e. bocs ac un ochr wedi ei dynnu i ffwrdd). Gallai'r dosbarth bleidleisio dros y dyluniad mwyaf gwreiddiol.



Humpty Dumpty, 1974.
Ffigurwr torion wedi ei gynnwys yn
Humpty Dumpty, Viking Kestrel 1974

Adnoddau Pellach

Philip Hughes (gol)*The Wonderful World of Rodney Peppé*, Canolfan Grefft Rhuthun, 2013

Rodney Peppé, *Rodney Peppé's Moving Toys*, Evans Brothers, 1980 a Sterling, 1980

Make Your Own Paper Toys, Patrick Hardy Books, 1984

Automata and Mechanical Toys, Crowood Press, 2002

Toys and Models, Antique Collectors' Club, 2003

Making Mechanical Toys, Crowood Press, 2005

Mae rhestr o lyfrau plant Rodney Peppé i'w chael ar:
http://en.wikipedia.org/wiki/Rodney_Pepp%C3%A9

Adnoddau Ar-lein

<http://www.sam-smith.org/>

<http://www.darkroastedblend.com/2010/12/amazing-automatons-victorian-robots.html>

<http://www.cabaret.co.uk/>

<http://blog.dugnorth.com/2012/03/profile-of-artist-sam-smith-father-of.html>

<https://www.youtube.com/watch?v=t6jwnu8lzy0> (Alexander Calder)

<http://www.poetryarchive.org/childrensarchive/search.do?method=theme&searchTerm=animals> (cerddi am anifeiliaid)

<http://www.dltk-kids.com/animals/songs/index.htm>

<https://www.youtube.com/watch?v=GuAwFhjSkFw> ('For the Benefit of Mr Kite' The Beatles)

<http://bookos.org/g/Rodney%20Peppe> (trawslwythiad am ddim o 'Making Mechanical Toys')

Gellir gwyllo penodau o raglenni teledu Rodney Peppé ar YouTube e.e.

https://www.youtube.com/watch?v=JXjpvIZo_tQ

Ymweld â'r Arddangosfa a Gweithdai

Bydd Canolfan Grefft Rhuthun ar agor yn ddyddiol o 10.00am - 5.30pm

Mynediad am ddim. Parcio am ddim i geir a bysiau.

Cyfarwyddiadau i'w cael ar <http://www.ruthincraftcentre.org.uk/>

I fwcio ymweliad â'ch grŵp ysgol holwch neu ffoniwch ddesg yr oriel ar 01824 704774 i gael gwybodaeth bellach.

Julie Robson 2013